# COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Medi 13eg, 2017 am saith o'r gloch

**PRESENNOL**

Alun Jones (Cadeirydd), Gwilym Hughes (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, Cynghorwyr Dewi W. Roberts a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd – Sylebwyr)

**YMDDIHEURIADAU**

Owi Lloyd-Jones, Andrew T. Weir, William B. Williams

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a dymunwyd gwellhad buan i'r Cyng. Andrew T. Weir sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd – anfonwyd cerdyn ato eisoes – a chwaer Cyng. Gwilym Hughes sydd gartref erbyn hyn ar ôl treulio ychydig ddyddiau yno hefyd.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cyng. Robert M. Jones fuddiant personol yng nghais ariannol Mynwent y Bwlch – eitem 7. Cyfrifon – Ceisiadau Ariannol isod – gan mai ef yw Trysorydd y Pwyllgor.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Orffennaf 19eg, 2017 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn – anfonwyd sylwadau'r Is-bwyllgor Cynllunio ar y pum cais cyntaf yn ystod mis Awst:

| | |
|---|---|
| C17/0628/39/LL | Cynlluniau Diwygiedig yn nodi to llechi a chynllun asesiad llwybr cerbydol – Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd yn ei le – Ynysfor Bach, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad ar safle cyfyng ar briffordd hynod brysur a chul ac mae'r cynllun yn anghymarus â thai cymdogol** |
| C17/0719/39/LL | Gosod dwy garafán sefydlog ychwanegol i gynyddu niferoedd o 17 i 19 a chodi clawdd pridd newydd – Tŷ Hir Caravan Park, Mynytho **– Derbyniwyd dyfarniad yn ei wrthod eisoes** |
| C17/0720/39/TC | **Gwybodaeth Bersonol Cynghorwyr –** Defnyddio carafán fel uned breswyl – Chalet, Hoskyns Bungalow, Bwlchtocyn |
| C17/0755/39/CC | Gwaith tocio i bedair coeden sydd yn destun Gorchymyn Diogelu Coed – Min-y-Don, Lôn Pont Morgan, Aber-soch **– Cefnogir** |
| C17/0774/39/LL | Adeiladu balconi llawr cyntaf – 26 Tan y Gaer, Aber-soch **– Cefnogir** |
| C17/0796/39/LL | Estyniad cefn a feranda **–** Pen y Gors, Lôn Golff, Aber-soch **– Cefnogir** |
| C17/0809/39/LL | Adeiladu modurdy – Tŷ Gwair, Creigir Uchaf, Aber-soch **– Cefnogir** |

C17/0878/39/LL Ailgyflwyniad o gais a ganiatawyd dan ganiatâd rhif C14/0640/39/LL ac sydd eisoes wedi'i adeiladu ar gyfer cywiro cyfeiriad yr eiddo – Fflat 2 Penarwel, Lôn Golff, Aber-soch **– Ni chyflwynir sylwadau oherwydd fod y disgrifiad yn aneglur**

C17/0879/39/LL Estyniad cefn – Afallon, 18 Tan y Gaer, Aber-soch **– Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **3. Ceisiadau Cynllunio**

i) ***C17/0159/39/LL – The Shanty, Pen Bennar, Aber-soch***

Trafodir y cais ar ôl i'r Pwyllgor Cynllunio ymweld â'r safle ar Fedi 25ain.

b) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Lôn Traeth***

- Cafwyd sgwrs ffôn â'r cyfreithiwr Kelly Hynes a dywedodd na chredai y gellid hawlio dim oddi wrth y cwmni drysau ond trwy hawliad bychan.
- Bu'n rhaid galw Williams a Williams Cyf. i lanhau'r draen tu allan i'r toiledau – tywod a gwreiddiau oedd y broblem.
- Prynwyd sedd newydd i un o doiledau'r merched – trafferth cael un ffitio'n iawn. Mae angen un i doiledau'r dynion hefyd; penderfynwyd archebu tair fel bod dwy wrth gefn. (Gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.)

ii) ***Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Toiled/au Cyhoeddus yn eich Cymuned***

Ni dderbyniwyd ymateb i'r cadarnhâd mai gosod peiriannau talu yn y toiledau oedd cais y Cyngor hwn cyn ystyried cymryd mwy o gyfrifoldeb ohonynt.

c) **Cae Chwarae Aber-soch**

i) ***Cae Pêl-droed***

Ni dderbyniwyd gwybodaeth bellach ond, deallwyd fod yr amcanbris yn uchel iawn.

ii) ***Archwiliad Iechyd a Diogelwch***

Ni chysylltwyd â'r paentwyr (Sean/Alwyn Jones/Melfyn Pritchard) eto.

iii) ***Amcanbrisiau Offer Newydd***

Ni dderbyniwyd gwybodaeth am leoliad lleol oddi wrth G.L. Jones Ltd. er cysylltu ddwywaith.

ch) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**

- Ni dderbyniwyd gwybodaeth os cyfranna'r Heddlu at y camera newydd ai peidio.
- Penderfynwyd gofyn i'r Heddlu fynychu cyfarfod mis nesaf.
- Arwyddion – Ian Roberts yn dal i aros am bris un plastig caled neu fetel.

d) **Meddygfa Aber-soch**

Derbyniwyd amryw ohebiaethau parthed yr uchod, gan gynnwys llythyr oddi wrth Dr. Morris ar ran y partneriaid. Tynnwyd sylw at y ddeiseb a'r pryderon am gau'r feddygfa mewn erthygl yn *Golwg* yn ystod mis Awst – ymatebodd Dr. Morris iddi yr wythnos wedyn. Casglwyd y mwyafrif ohonynt cyn heno – ymateb da hyd yma; penderfynwyd parhau. Anfonodd y meddygon lythyr at y cleifion yn egluro'r sefyllfa. Adroddodd Cyng. Dewi W. Roberts ar gyfarfod o'r Cyngor Iechyd Lleol a gynhaliwyd echdoe – ystyrir gwrthwynebu cais y meddygon pan ddaw ger bron. Penderfynwyd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi siomedigaeth nas sefydlir Ysgol Feddygol

ym Mhrifysgol Bangor, gan fod gwir angen un i hyfforddi a denu meddygon yn y Gogledd, ac anfodlonrwydd y rhoddwyd yr arian a glustnodwyd i agor ail Ysgol Feddygol y De yn Abertawe.

**Gadawodd Cynghorwyr John B. Hughes a Catherine Ll. Morris y cyfarfod ar ôl trafod yr uchod.**

dd) **Gohebiaeth: 9i) Nimbus Lightning Protection Ltd. – Corn Tanrallt**
E-bostiwyd eto, gan na dderbyniwyd ymateb pellach i'r gŵyn; bygythwyd mynd at gwmni arall – addawyd cynnal y prawf ar Fedi 4ydd. Cysylltwyd eto heddiw gan na dderbyniwyd gohebiaeth – anfonir yr adroddiad maes o law.

e) **5. Coed yr Allt, Aber-soch**
- Derbyniwyd dau daliad iawndâl oddi wrth y diffynnydd hyd yma – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.
- Ni chyhoeddwyd llythyr Adam Wilde, a daclusodd y coed, yn y *Daily Post* i fynegi ei syndod am y dyfarniad nag un y Clerc mewn ymateb i un a gyhoeddwyd oddi wrth Hywel Roberts, Caernarfon. Cyhoeddwyd ei lythyr drannoeth hanes yr achos yn cefnogi'r hyn a wnaeth y diffynnydd! Gwêl fai ar gynghorau'n plannu coed ym mhob man a gadael iddynt dyfu'n afreolus heb eu teneuo na'u tocio.
- Mae'r Heddlu'n hapus â'r dyfarniad.

ff) **6. Etholiadau – Cynghorau Cymuned a Thref**
Derbyniwyd anfoneb am £360.00 – costau'r etholiadau – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

g) **11. Gohebiaeth: f) Wyn Williams/Arwel Ellis Jones – Adolygiad o Ffiniau Etholaethol Gwynedd/Pen Llŷn**
Gofynnwyd, wrth ymddiheuro am ymateb yn rhy hwyr, a oedd dyddiad penodedig – drannoeth ein cyfarfod ni. Eglurwyd y cyfarfu'r Cyngor llawn i'w drafod a thynnwyd sylw at amserlen cwbl afresymol y Comisiwn wrth ymateb; cafwyd copi o gynnwys cyflwyniad y Cyngor er gwybodaeth. Cyhoeddir cynigion drafft y Comisiwn ar ddechrau 2018.

ng) **11. Gohebiaeth: d) Came and Cable – Yswiriant**
Derbyniwyd prisiau tri darparwr – Hiscox oedd y rhataf (£847.18 am flwyddyn neu £804.82 am dair blynedd) – oddi wrth yr uchod (ni allai AON gynnig oherwydd na fydd yn parhau ag yswirio cynghorau ar ôl diwedd mis Awst), ynghyd ag un oddi wrth Zurich (yswirwyr presennol) am yswiriant y flwyddyn nesaf (£724.14 am flwyddyn neu £674.50 am dair blynedd); penderfynwyd derbyn un Zurich ar gytundeb tair blynedd, gan ei fod ddeugant yn rhatach nag un Hiscox a rhywbeth tebyg oedd y sicrwydd a gynigid gan y ddau gwmni. (Gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.)

5. **MYNWENT**

a) **Rheolau'r Fynwent**
Anfonwyd copi o'r holl ddogfennau at ymgymerwyr a saerfeini'r cylch. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Henry Jones, Cricieth, yn diolch, ynghyd â thynnu sylw y gwnaed cais amdanynt y llynedd ac ym mis Ionawr eleni – atebwyd ac anfonwyd copi o lythyr Chwefror 20fed yn ymateb i'r ceisiadau rheiny, er gwybodaeth.

b) **Ffensio**

Derbyniwyd ateb oddi wrth ddeiliad y cae cymdogol agosaf parthed rhentu'r tir i'w bori pe ffensid ochr dde ac isaf y fynwent. Ni all weld ochr bositif i'r bwriad oherwydd: ni phorir defaid yn y cae agosaf oherwydd porfa ar gyfer silwair fydd yno tan ddiwedd mis Awst; mae ei faint a'i safon yn anghymwys ac anaddas i'w bori a buasai rhaid cario dŵr yno, gan nad oes cyflenwad. Ychwanega y barbiodd y clawdd drain sy'n terfynu â Fferm y Bwlch â pheiriant tractor yn ddi-gost ac mae'n fodlon parhau â hynny. Penderfynwyd diolch iddo am ei sylwadau ac am ei gynnig i barhau â thorri'r clawdd, ynghyd â gofyn a allai sbreo'r dail tafol pan ddaw'r amser. O ganlyniad, parheir â thorri gwellt yn unol â'r gytundeb fel y mae.

6. **CYFRIFON**

a) **Archwiliad 2016 – 2017**

Gofynnodd BDO, yr Archwilwyr Allanol, am fwy o wybodaeth:

i) roedd camgymeriad yng nghyfanswm y balans a ddygwyd ymlaen – gwahaniaeth o £20.00 wrth adio dau ad-daliad PWLB; anfonwyd copi o'r datganiadau perthnasol er gwybodaeth a chadarnhad o'r swm cywir

ii) "gostyngodd costau staff £6,011 (44%) a chafwyd esboniad am hyn ond nid oedd digon o wybodaeth dod i gasgliad" – anfonwyd 'dadansoddiad manwl o'r gostyngiad, yn cynnwys y symiau dan sylw'

iii) "bu cynnydd o £117,225 (219%) yn yr asedau sefydlog ac ni ddarparwyd esboniad am hyn" – atebwyd mai o ganlyniad i un o'r pwyntiau a godwyd yn adroddiad y llynedd y gwnaed hynny

iv) "ni allwn ganfod copi o ddatganiad cyfrifon wedi'i archwilio ar wefan y Cyngor" – fe'i rhoddwyd erbyn hyn.

Derbyniwyd y ffurflen i'w chywiro a'i hailgymeradwyo cyn Medi 20fed – gwnaed hynny heno – ynghyd ag adroddiad yn tynnu sylw at:

- *"y Gofrestr Asedau* – mae'n anghyflawn ac nid yw'n cynnwys peth neu'r cyfan o'r wybodaeth ar gyfer pob ased sydd gan y Cyngor: dyddiad caffael, cost prynu a'i leoliad; rhaid ei diweddaru cyn gynted â phosibl neu o leiaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol i sicrhau y diogelir hwy a dylai'r Archwilydd Mewnol ddilysu cywirdeb cofrestr o'r fath yn ei adolygiad blynyddol o reolaeth fewnol y Cyngor
- *Asedau* – diweddarwyd y gofrestr asedau sefydlog ar gyfer y flwyddyn gyfredol gan na wnaed yn y gorffennol ac argymhellir yr adolygir hi'n flynyddol, ynghyd â chynnwys unrhyw asedau sydd ar goll ar bris cost
- *Asedau Sefydlog* – cynhwysir hwy ar swm prisiant ond, dylent fod ar gost sefydlog (cost prynu, os yn bosibl) – gellir defnyddio gwerth yswiriant ond, ni ddylai fod yn wahanol iawn i gost prynu'r ased. Ni ddylid addasu'r asedau a ddatgelwyd ar y ffurflen flynyddol ar gyfer ailbrisiadau, dibrisiant neu amhariad. Yr unig bethau ddylai symud yw cost ychwanegiadau neu gost gwerth unrhyw warediadau felly, ni ddylid adlewyrchu newidiadau mewn gwerthoedd yswirio. Mae'n bosibl nad yw'r driniaeth gyfrifo'n cydymffurfio ag arferion priodol. Yn y dyfodol, dylid gwirio'r Canllaw i Ymarferwyr cyfredol i sicrhau y cyfrifir yn gywir am asedau. Nid oes disgwyl i werth asedau newid oni bai y gwaredir hwy".

b) **Ceisiadau Ariannol**

Trafodwyd a phenderfynwyd cyfrannu at yr ychydig geisiadau a ddaeth i law gan y Cyngor llawn – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

7. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Adroddiad Arolygydd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLL) Gwynedd a Môn**
Llythyr yn hysbysu y mabwysiadodd y ddau Gyngor y CDLL erbyn hyn.

8. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Ymgynghoriad Cyhoeddus Teithio Llesol**
Derbyniwyd ateb oddi wrth Iwan ap Trefor, Uwch Beiriannydd Traffig, i'r sylwadau a anfonwyd ym mis Awst y llynedd. Ystyria'r Gwasanaeth gyflwyno llwybr beicio o Lanbedrog i Bwllheli ar eu cynlluniau mapiau integredig, gan fod yna deimladau cryf i'w gefnogi ar ddiwedd yr ymgynghoriad – cysylltir eto i ofyn pam na chynhwyswyd Aber-soch ar y mapiau.

b) **Biniau**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Steffan Jones parthed gosod bin baw cŵn ger Maes Parcio Machroes neu Lôn Haearn; gofynnir i'r Cyng. John B. Hughes gael gair ag o.

c) **Y Fach – Cynllun Parcio**
Penderfynwyd holi a allai Priffyrdd ystyried newid mynedfa/allanfa'r gilfan, h.y. eu cyfnewid, gan fod rhaid i'r ceir sydd eisiau mynd yno o ochr Aber-soch dynnu allan i ganol y ffordd i droi mewn iddi ac mae'r allanfa ychydig ar dro cuddedig sy'n ei gwneud yn anoddach i yrrwyr fedru gweld yn glir dod oddi yno.

9. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Torri'r Llwybrau 2017***
Yn anffodus, ni lwyddwyd cynnal cyfarfod gan nad ymatebodd Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i'r cais o aildrefnu un. Sylweddolir ei fod dan bwysau oherwydd toriadau staffio ond, mynegodd y Clerc ei bod yn siomedig iawn yn ei ddiffyg ymateb. Derbyniwyd anfoneb un torrwr – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod – hyd yma. Derbyniwyd e-bost oddi wrth Cyng. John B. Hughes yn nodi y derbyniodd gwynion na thorrwyd dau lwybr (rhifau 57 a 59) ym Mynytho.

10. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
   i) ***Ymgynghoriad – Diwygio Etholiadol ym Maes Llywodraeth Leol yng Nghymru***
   Angen sylwadau erbyn Hydref 10fed.
   ii) ***Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol***
   Mwy o wybodaeth.
   iii) ***Swyddfa Archwilio Cymru – Digwyddiadau y Gyfnewidfa Arfer Da***
   Rhestr ddiweddaraf yr uchod a gynhelir dros y misoedd nesaf er gwybodaeth.
   iv) ***Cynllun Nawdd Cymraeg 2050***
   Nawdd ar gael i gymdeithasau/fudiadau ar gyfer ariannu prosiectau newydd a dyfeisgar i gynyddu defnydd o'r Gymraeg – dyddiad cau Medi 22ain.
   v) ***Diwygio Deddfwriaeth Diogelu Data***

Copi o Nodyn Cyfreithiol NALC (Saesneg yn unig) sy'n cynnig gwybodaeth bwysig am newidiadau i'r ddeddfwriaeth er mwyn cynllunio ar eu cyfer. Trefnir seminarau maes o law.

vi) ***Bwletin mis Awst***
Argraffwyd taflenni gwybodaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) i hybu adnoddau naturiol, yn ogystal â hyrwyddo pŵer y bobl, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

vii) ***Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor***
Rhaglen y cyfarfod a gynhaliwyd yn Siambr Cyngor Tref Pwllheli neithiwr – fe'i mynychwyd gan y Clerc.

viii) ***Papur Briffio i Randdeiliaid – Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned ar Bapur Gwyn GIG***
Noda weledigaeth amgen ar gyfer corff newydd i lais y bobl ar iechyd a gofal cymdeithasol – angen sylwadau i ULlC erbyn Medi 19eg, y dyddiad cau Medi 29ain.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Ymgynghoriad Sicrhau Toriad Treth i Fusnesau Bach – Cynllun Rhyddhad Ardrethi Newydd ar gyfer Busnesau Bach yng Nghymru***
Angen sylwadau erbyn Hydref 13eg.

ii) ***Ymgynghoriad Bil y Gymraeg – Papur Gwyn***
Angen sylwadau erbyn Hydref 31ain.

iii) ***Clystyru – Ariannu i Gyflwyno Trefniadau Cyfleusterol ar y Cyd***
Llythyr yn hysbysu bod cyllideb o £20,000 ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol hon i hwyluso creu clystyrau o nifer fach o Gynghorau Cymuned a Thref i gefnogi sefydlu trefniadau ar y cyd yn y lle cyntaf.

c) **Cyllid a Thollau EM – Cadarnhau y Cyd-leola ei Dîm Gwasanaethau Cymraeg â'r Adran Gwaith a Phensiynau ym Mhorthmadog**
Llythyr yn cadarnhau'r uchod ac, o ganlyniad, ni chollir y gwasanaeth na'r swyddi o'r ardal hon.

ch) **RCL Redgrove Consultants Ltd. – Telefonica UK Ltd. (02)**
Llythyr yn egluro y penodwyd y cwmni gan O2 i chwilio am safleoedd addas dros dro (Cae Chwarae Aber-soch yn y gymuned hon) i leoli offer telegyfathrebu dros dro am gyfnod o chwe mis oherwydd nad oes signal da yn yr ardal – telir rhent ymlaen llaw am y cyfnod. Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

d) **Iwan Davies – Gwaith ar Gael?**
E-bost oddi wrth yr uchod yn holi os oes gan gynghorau gytundebau glanhau biniau, meysydd parcio/palmentydd a chynnal a chadw tir i'w fusnes newydd.

dd) **Clwb Golff Aber-soch**
Llythyr yn gofyn caniatâd gosod hysbysfwrdd ar dir y Cyngor ar Lôn Golff – fe'i caniatawyd yn eiriol wrth ei dderbyn.

11. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

C17/0206/39/CR Dymchwel adeilad allanol cefn ac adeiladu estyniad unllawr newydd, ynghyd ag addasiadau mewnol ac adnewyddu'r ffenestri presennol –

| | |
|---|---|
| | The Lodge, Haulfryn, Stryd Fawr, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0207/39/LL | Dymchwel adeilad allanol cefn ac addasu estyniad unllawr – The Lodge, Haulfryn, Stryd Fawr, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0412/39/LL | Creu safle ar gyfer carafannau teithiol – Llain Las, Aber-soch, Llanengan **– Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0445/39/LL | Newidiadau i fynedfa – Tir ger Cae'r Eglwys, Llanengan **– Gwrthodwyd** |
| C17/0494/39/LL | Estyniadau ac addasiadau mewnol – 16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn **– Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0536/39/LL | Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd Cynllunio C16/1673/39/LL er adeiladu'r datblygiad yn unol â dyluniad diwygiedig – Fras, Mynytho **– Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0553/39/LL | Dymchwel modurdy presennol ac adeiladu un newydd – Neigwl, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0558/39/AC | Rhyddhau Amodau 7, 16 a 17 (draenio a mesurau lliniaru llifogydd) o Ganiatâd Cynllunio C15/0383/39/LL – Riverside, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddiamodol** |
| C17/0577/39/LL | Diwygiad i ddyluniad yr eiddo er ychwanegu dwy ffenestr ychwanegol ar flaen yr eiddo – 1 Hafan yr Harbwr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0578/39/LL | Estyniad i'r blaen a newid siâp teras blaen a ganiatawyd yng nghais C17/0175/39/LL – 8 Maes Awel, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0579/39/LL | Adeiladu porth newydd i'r cefn – Tŷ Capel Bethlehem, Cilan – **Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0588/39/LL | Tynnu mynedfa gerdded bresennol a chreu lle parcio a wal gynnal newydd – Isfryn, Llanengan **– Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0595/39/TC | Cais am Dystysgrif Defnydd Sefydlog presennol o dir fel safle storio carafannau – Tir ger Fferm Cim, Bwlchtocyn – **Caniatawyd y Dystysgrif Cyfreithlon yn unig** |
| C17/0629/39/DA | Diwygiadau ansylweddol i Ganiatâd Rhif C16/1571/39/LL ar gyfer newid lleoliad y drws ar y dyluniad blaen a dileu drws allanol y toiled cefn – Cyn-fanc NatWest, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0658/39/LL | Estyniad unllawr cefn – Maesteg, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0719/39/LL | Gosod dwy garafán sefydlog ychwanegol i gynyddu niferoedd o 17 i 19 a chodi clawdd pridd newydd – Tŷ Hir Caravan Park, Mynytho **– Gwrthodwyd** |
| C17/0741/39/AC | Rhyddhau Amod 4 (Deunyddiau) ac 20 (Tirlunio) ar Ganiatâd Cynllunio C15/0383/39/LL – Riverside, Aber-soch – **Caniatawyd yn ddi-amodol** |
| C17/0742/39/AC | Rhyddhau Amodau 3 (Cytuno Llechi) a 4 (Carreg) ar Ganiatâd Cynllunio C16/1571/39/LL – Cyn-fanc NatWest, Aber-soch – **Caniatawyd yn ddi-amodol** |

**YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

Dim

**CEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL**

| | |
|---|---|
| C17/0247/39/LL | Adeiladu modurdy ar wahân a newid defnydd tir i ddomestig – The View, Bwlchtocyn |
| C17/0442/39/AM | Dymchwel adeilad meddygfa wag bresennol ac adeiladu annedd gan greu mynedfa newydd a gwaith cysylltiol – Meddygfa Aber-soch |

12. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

**Taliadau**

Cadarnhawyd talu cyflog mis Medi (Rh/S 002084) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Elfyn Repair Services – £1600.00 (Rh/S 002085 – Torri Gwellt y Fynwent)
b) Cyngor Gwynedd – £248.82 (Rh/S 002086 – Gwagio Biniau Baw Cŵn mis Gorffennaf)
c) Cyngor Gwynedd – £473.00 (Rh/S 002087 – Gwagio Biniau Baw Cŵn mis Mehefin)
ch) Cyngor Gwynedd – £360.00 (Rh/S 002088 – Costau yr Etholiadau Lleol)
d) Rob Singleton Garden Services – £4560.00 (Rh/S 002089 – Torri Llwybrau)
dd) Casglwr Trethi – £7.16 (Rh/S 002090 – Talu Wrth Ennill)
e) Jewson Ltd. – £51.22 (Rh/S 002091 – Sedd Toiled Newydd)
f) Cyngor ar Bopeth – £100.00 (Rh/S 002092 – Cyfraniad)
ff) Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru – £50.00 (Rh/S 002093 – Cyfraniad)
g) Clwb Syrffio Llŷn – £500.00 (Rh/S 002094 – Cyfraniad)
ng) Ambiwlans Awyr Cymru – £500.00 (Rh/S 002095 – Cyfraniad)
h) Eglwysi Seintiau Engan a Chïan – £1800.00 (Rh/S 002096 – Cyfraniad)
i) Pwyllgor Mynwent y Bwlch – £900.00 (Rh/S 002097 – Cyfraniad)
l) Clwb Hoci Pwllheli – £200.00 (Rh/S 002098 – Cyfraniad)
ll) Zurich Municipal – £657.00 (Rh/S 002099 – Yswiriant 2017 – 2020)

**Derbyniadau**

a) Toiledau – £1036.65 (Tâl Mynediad – £152.30, £51.80, £61.90, £159.00, £77.60, £61.80, £81.70, £74.90, £115.00, £87.65, £81.70 a £31.30)
b) Gwasanaeth y Llysoedd – £400.00 (Iawndâl Coed yr Allt Gorffennaf ac Awst)
c) Cyngor Gwynedd – £25,000 (Ail Daliad Praesept 2017 – 2018)

13. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Hydref 11eg, 2017 am saith o'r gloch